



CYHOEDDWDYD / ISSUED: 03/09/2024

DEDDF DRWYDDEDU 2003 | LICENSING ACT 2003
TRWYDDED ANHEDDAU | PREMISES LICENCE

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

Rhif trwydded | Premises licence number:

PRM 0261 (Cyhoeddwyd | Issued : 03/09/2024)

Rhan 1 – Manylion am y safle | Part 1 - Premises details

**Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad:
Postal address of premises, or if none, ordnance survey map reference or description:**

CLWB RYGBI TREGARON / RUGBY CLUB

Tref bost | Post town

TREGARON

Côd Post | Post cod

SY25 6HY

Rhif ffôn | Telephone number

01974 298 608

Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau | Where the licence is time limited the dates

**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED
PREMISES LICENCE IS NOT TIME LIMITED**

Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded:

Licensable activities authorised by the licence:

ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT

DRAMAU / PLAYS

FFILMIAU / FILMS

CHWARAEON DAN DO / INDOOR SPORTING EVENTS

CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC

CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC

PERFORMIADAU DAWNS / PERFORMANCE OF DANCE

UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW, CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO

NEU PERFFORMIADAU DAWNS | ANYTHING OF A SIMILAR NATURE TO LIVE MUSIC,

RECORDED MUSIC OR PERFORMANCES OF DANCE

CYFLEUSTERAU I ADLONIAENT / FACILITIES FOR ENTERTAINMENT

CREU CERDDORIAETH / MAKING MUSIC

DAWNSIO / DANCING

**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I CREU CERDDORIAETH NEU DAWNSIO / ANYTHING OF A
SIMILAR NATURE TO MAKING MUSIC OR DANCING**

LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT

ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL

Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy
The times the licence authorises the carrying out of licensable activities

ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT

DRAMAU / PLAYS

FFILMIAU / FILMS

CHWARAEON DAN DO / INDOOR SPORTING EVENTS

CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC

CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC

PERFORMIADAU DAWNS / PERFORMANCE OF DANCE

UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW, CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO

NEU PERFFORMIADAU DAWNS | ANYTHING OF A SIMILAR NATURE TO LIVE MUSIC,

RECORDED MUSIC OR PERFORMANCES OF DANCE

CYFLEUSTERAU I ADLONIAENT / FACILITIES FOR ENTERTAINMENT

CREU CERDDORIAETH / MAKING MUSIC

DAWNSIO / DANCING

**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I CREU CERDDORIAETH NEU DAWNSIO / ANYTHING OF A
SIMILAR NATURE TO MAKING MUSIC OR DANCING**

POB UN O'R CYFLEUSTERAU UCHOD / ALL OF THE ABOVE FACILITIES

LLUN – SUL: MON-SUN: 23:00 – 01:00

LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT

LLUN – SUL / MON- SUN: 23:00 – 01:00

ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL

SUL – GWE / SUN-FRI: 10:00 – 01:00

SAD / SAT: 10:00 – 01:30

AMSERAU ANSAFONOL / NON-STANDARD TIMINGS

NOS CALAN: AWR TERFYNOL / NEW YEARS EVE: TERMINAL HOUR: 0400

GWYL Y BANC PENWYTHNOS, HE DYDD GWENER, DYDD SADWRN, DYDD SUL A DYDD

**LLUN: UN AWR YCHWANEGOL / BANK HOLIDAY WEEKENDS, I.E., FRIDAY, SATURDAY,
SUNDAY AND MONDAY: ONE ADDITIONAL HOUR**

RASIAU TREGARON BLYNYDDOL H.E., DYDD IAU, DYDD GWENER A SADWRN CYN DYDD

**LUN GWYLIAU BANC YM AWST: UN AWR YCHWANEGOL / ANNUAL TREGARON RACES, I.E.,
THURSDAY, FRIDAY AND SATURDAY PRECEEDING MONDAY BANK HOLIDAY IN AUGUST:
ONE ADDITIONAL HOUR**

- **CYFYNGEDIG I 5 DIGWYDDIAD ADLONIAENT ALLANOL A GYNHALIWDYD MEWN PABELL
/ LIMITED TO 5 EXTERNAL ENTERTAINMENT EVENTS HELD IN A MARQUEE**

Oriau agor y safle | The opening hours of the premises

SUL – GWE / SUN – FRI: 10:00 – 01:30

SAD / SAT: 10:00 – 02:00

AMSERAU ANSAFONOL | NON-STANDARD TIMINGS:

**30 MUNED YCHWANEGOL HYD AT AMSERAU ANSAFONOL / ADDITIONAL 30 MINUTES TO
END OF NON STANDARD TIMINGS**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle
neu oddi yno**

Where the licence authorises supplies of alcohol whether these are on and/ or off supplies

AR AC ODDI AR Y SAFLE | ON AND OFF SALES

**Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle
| Name, (registered) address, telephone number and email (where relevant) of holder of
premises licence**

PWYLLGOR CLWB RYGBI TREGARON COMMITTEE

CLWB RYGBI TREGARON RUGBY CLUB

HEOL Y GORSAF / STATION ROAD

TREGARON

CEREDIGION

SY25 6HY

GWELER ATTODIAD A / SEE APPENDIX A

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol)
Registered number of holder, for example company number, charity number (where
applicable)**

**Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu
cyflenwi alcohol | Name, address and telephone number of designated premises supervisor
where the premises licence authorises the supply of alcohol**

JAMES GWILLIAM WALTON

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y
Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol
Personal licence number and issuing authority of personal licence held by designated
premises supervisor where the premises licence authorises for the supply of alcohol**

CER 1639

CYNGOR SIR CEREDIGION / COUNTY COUNCIL

ATODIAD 1 - AMODAU GORFODOL

1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
- (2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
 - (a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
 - (b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
- (3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
- (2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
- (3)
 - (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
 - (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
- (4) Yn yr adran hon -
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae "corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

3 Amod gorfodol: goruchwyllo drysau

- (1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- (2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
 - (a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
 - (b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
 - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu
 - (ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
- (3) At ddibenion yr adran hon -
 - (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a
 - (b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014

Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.
2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-
 - (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);
 - (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –
$$P = D + (D \times V)$$
pan mai –
 - (i) P yw'r pris a ganiateir
 - (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a
 - (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol
 - (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw
 - (i) Deiliad y drwydded safle,
 - (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu
 - (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;
 - (d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac
 - (e) ystyr "treth ar werth" yw treth ar werth sy'n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)
3. Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.

(2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddioddydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

Annex 1 - MANDATORY CONDITIONS

1 Mandatory conditions where licence authorises supply of alcohol

- (1) Where a premises licence authorises the supply of alcohol, the licence must include the following conditions.
- (2) The first condition is that no supply of alcohol may be made under the premises licence-
 - (a) at a time when there is no designated premises supervisor in respect of the premises licence, or
 - (b) at a time when the designated premises supervisor does not hold a personal licence or his personal licence is suspended.
- (3) The second condition is that every supply of alcohol under the premises licence must be made or authorised by a person who holds a personal licence.

2 Mandatory condition: exhibition of films

- (1) Where a premises licence authorises the exhibition of films, the licence must include a condition requiring the admission of children to the exhibition of any film to be restricted in accordance with this section.
- (2) Where the film classification body is specified in the licence, unless subsection (3)(b) applies, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that body.
- (3) Where-
 - (a) the film classification body is not specified in the licence, or
 - (b) the relevant licensing authority has notified the holder of the licence that this subsection applies to the film in question, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that licensing authority.
- (4) In this section - "children" means persons aged under 18; and "film classification body" means the person or persons designated as the authority under section 4 of the Video Recordings Act 1984 (c.39) (authority to determine suitability of video works for classification).

3 Mandatory condition: door supervision

- (1) Where a premises licence includes a condition that at specified times one or more individuals must be at the premises to carry out a security activity, the licence must include a condition that each such individual must be licensed by the Security Industry Authority.
- (2) But nothing in subsection (1) requires such a condition to be imposed-
 - (a) in respect of premises within paragraph 8(3)(a) of Schedule 2 to the Private Security Industry Act 2001 (c.12) (premises with premises licenses authorising plays or films), or
 - (b) in respect of premises in relation to-
 - (i) any occasion mentioned in paragraph 8(3)(b) or (c) of that Schedule (premises being used exclusively by club with club premises certificate, under a temporary event notice authorising plays or films or under a gaming licence), or
 - (ii) any occasion within paragraph 8(3)(d) of that Schedule (occasions prescribed by regulations under that Act).
- (3) For the purposes of this section-

- (a) "security activity" means an activity to which paragraph 2(1)(a) of that Schedule applies, and
- (b) paragraph 8(5) of that Schedule (interpretation of references to an occasion) applies as it applies in relation to paragraph 8 of that Schedule.

The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2014

With effect from 28th May 2014

1. A relevant person shall ensure that no alcohol is sold or supplied for consumption on or off the premises for a price which is less than the permitted price.
2. For the purposes of the condition set out in paragraph 1-
 - (a) "duty" is to be construed in accordance with the Alcoholic Liquor Duties Act 1979;
 - (b) "permitted price" is the price found by applying the formula –
$$P = D + (D \times V)$$
where –
 - (i) P is the permitted price
 - (ii) D is the rate of duty chargeable in relation to the alcohol as if the duty were charged on the date of the sale or supply of the alcohol, and
 - (iii) V is the rate of value added tax chargeable in relation to the alcohol as if the value added tax were charged on the date of the sale or supply of the alcohol
 - (c) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a premises licence –
 - (i) The holder of the premises licence,
 - (ii) The designated premises supervisor (if any) in respect of such a licence, or
 - (iii) The personal licence holder who makes or authorises a supply of alcohol under such a licence;
 - (d) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a club premises certificate, any member or officer of the club present on the premises in a capacity which enables the member or officer to prevent the supply in question; and
 - (e) "valued added tax" means value added tax charged in accordance with the Value Added Tax Act 1994
3. Where the permitted price given by Paragraph (b) of paragraph 2 would (apart from this paragraph) not be a whole number of pennies, the price given by that sub-paragraph shall be taken to be the price actually given by that sub-paragraph rounded up to the nearest penny.

4. (1) Sub-paragraph (2) applies where the permitted price by Paragraph (b) of paragraph 2 on a day (“the first day”) would be different from the permitted price on the next day (“the second day”) as a result of a change to the rate of duty or value added tax.

(2) The permitted price which would apply on the first day applies to sales or supplies of alcohol which take place before the expiry of the period of 14 days beginning on the second day.

The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) (Amendment) Order 2014

The below Mandatory Conditions **replace** the Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2010 and comes into effect **on 1st October 2014**

Conditions 1 to 4 refer to all premises that sell or supply alcohol for consumption on the premises. Condition 3 is relevant to Premises that sell for consumption off the premises.

1. (1) The responsible person must ensure that staff on relevant premises do not carry out, arrange or participate in any irresponsible promotions in relation to the premises.

(2) In this paragraph, an irresponsible promotion means any one or more of the following activities, or substantially similar activities, carried on for the purpose of encouraging the sale or supply of alcohol for consumption on the premises—

(a) games or other activities which require or encourage, or are designed to require or encourage, individuals to—

(i) drink a quantity of alcohol within a time limit (other than to drink alcohol sold or supplied on the premises before the cessation of the period in which the responsible person is authorised to sell or supply alcohol), or

(ii) drink as much alcohol as possible (whether within a time limit or otherwise);

(b) provision of unlimited or unspecified quantities of alcohol free or for a fixed or discounted fee to the public or to a group defined by a particular characteristic in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(c) provision of free or discounted alcohol or any other thing as a prize to encourage or reward the purchase and consumption of alcohol over a period of 24 hours or less in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(d) selling or supplying alcohol in association with promotional posters or flyers on, or in the vicinity of, the premises which can reasonably be considered to condone, encourage or glamorise anti-social behaviour or to refer to the effects of drunkenness in any favourable manner;

(e) dispensing alcohol directly by one person into the mouth of another (other than where that other person is unable to drink without assistance by reason of disability).

2. The responsible person must ensure that free potable water is provided on request to customers where it is reasonably available.

3. (1) The premises licence holder or club premises certificate holder must ensure that an age verification policy is adopted in respect of the premises in relation to the sale or supply of alcohol.

(2) The designated premises supervisor in relation to the premises licence must ensure that the supply of alcohol at the premises is carried on in accordance with the age verification policy.

(3) The policy must require individuals who appear to the responsible person to be under 18 years of age (or such older age as may be specified in the policy) to produce on request, before being served alcohol, identification bearing their photograph, date of birth and either—

- (a) a holographic mark, or
- (b) an ultraviolet feature.

4. The responsible person must ensure that—

(a) where any of the following alcoholic drinks is sold or supplied for consumption on the premises (other than alcoholic drinks sold or supplied having been made up in advance ready for sale or supply in a securely closed container) it is available to customers in the following measures—

- (i) beer or cider: ½ pint;
- (ii) gin, rum, vodka or whisky: 25 ml or 35 ml; and
- (iii) still wine in a glass: 125 ml;

(b) these measures are displayed in a menu, price list or other printed material which is available to customers on the premises; and

(c) where a customer does not in relation to a sale of alcohol specify the quantity of alcohol to be sold, the customer is made aware that these measures are available.”

Rhestr weithredu Newydd – Mawrth 2022**Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu a gyflwynwyd fel rhan o gais newydd i gynddu arwynebedd trwyddedadwy**

Mae cartref Clwb Rygbi Tregaron yn cynnwys prif far a seddi. Defnyddir porta-cabin ar gyfer digwyddiadau'r pwyllgor megis cyfarfodydd a nosweithiau codi arian. Gosodir pabell (hyd at 24x12 metr) yn y maes parcio o bryd i'w gilydd fel lleoliad ar gyfer hyd at 500 o bobl.

a) Cyffredinol

Bydd staff yn cael eu hyfforddi ar ofynion Deddf Trwyddedu 2003 ac maent yn ymwybodol o'n rhestr weithredu. Hyfforddir staff i ofyn am brawf adnabod gan unrhyw un sy'n edrych yn iau na 21; cyfarwyddir nhw i dderbyn prawf adnabod â llun e.e. pasbort, trwydded yrru, cerdyn adnabod â llun. Os bydd amheuaeth o gwbl, ni fyddant yn gwerthu alcohol. Ni fyddant yn gweini neb sydd eisoes yn feddw.

b) Atal troseddu ac anhrefn

Ni fyddwn yn gwerthu alcohol i neb sy'n ymddangos yn feddw neu sy'n dreisgar, yn gecrus neu'n afreolus. Sicrheir y safle gan gloeon o safon ac mae yna larwm. Pan ddarperir **adloniant i'r cyhoedd**, defnyddir goruchwylwyr drysau ar raddfa o 1 fesul 100 o bobl. Yn ystod digwyddiadau adloniant bydd swyddogion drws SIA (Awdurdod y Diwydiant Diogelwch) ar ddyletswydd ar y safle. Yn eu cefnogi fe fydd aelodau o bwyllgor y clwb a fydd yn cael eu briffio'n llawn am eu rôl a'u cyfrifoldebau. Bydd y staff SIA yn gwisgo dillad brand a bydd bathodynau eu trwydded yn weladwy iawn. Bydd y staff SIA a stiwardiaid wedi'u lleoli'n strategol wrth y fynedfa a thu mewn a thu allan i unrhyw bebyll ar gyfer digwyddiadau. Bydd y staff yn cynnwys aelodau benywaidd i helpu i ymdrin â'r merched fydd yn bresennol. Ni fyddwn yn goddef defnyddio sylweddau anghyfreithlon ar ein safle ac os bydd amheuaeth, cysylltir â'r heddlu.

c) Diogelwch y Cyhoedd

Bydd goleuadau yn yr awyr agored yn cael eu llogi yn ystod y digwyddiadau. Ni chaniateir gwydrau na photeli gwydr y tu allan i brif safle'r clwb. Yn ystod digwyddiadau bydd unrhyw ddioddydd a gyflenwir y tu allan i brif safle'r clwb yn cael eu gweini mewn polycarbonad, gwydrau plastig neu boteli plastig. Bydd diogelwch y bobl sy'n mynychu unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir yn y clwb yn ystyriaeth flaenllaw. Bydd gan oruchwylwyr y drysau - yn ddynion a merched - hawl i chwilio unrhyw fag, bagiau llaw neu ddillad os ydynt yn amau bod rhywun yn cario poteli i mewn i'r lleoliad. Gosodir hysbysiadau wrth y brif fynedfa i nodi y gellir archwilio pobl. Bydd unrhyw eitemau y gellir eu defnyddio i beri niwed i rywun yn cael eu cymryd oddi ar y person sy'n eu cludo. Bydd swyddogion y drysau yn sicrhau nad yw nifer y bobl ym mhob man yn mynd y tu hwnt i'r capasiti. Ni chaniateir mwy na 100 o bobl yn y Clwb a dim mwy na 90 o bobl yn y portacabin. Bydd nifer y bobl a ganiateir yn y babell yn dibynnu ar faint y babell a godir. Os codir y babell fwyaf gellid caniatáu mynediad i hyd at 699 o bobl. Bydd y brif fynedfa'n cael ei chadw'n rhydd o rwystrau, i sicrhau bod gan gerbydau'r gwasanaethau brys fynediad hwylus i'r safle. Ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn y babell, bydd trydanwr cymwys yn rhoi gwybod am y ffordd fwyaf diogel o ddarparu trydan iddi. Cyflenwir y trydan drwy ddefnyddio ceblau trydan fydd yn rhedeg o'r clwb. Bydd y ceblau hyn wedi'u harfwisgo neu defnyddir generadur a bydd trydanwr proffesiynol yn cysylltu'r cyflenwad trydan. Bydd y cyflenwad trydan allanol/peiriannau sain ac ati yn cael eu cysylltu â dyfais cerrynt gweddilliol (sef RCD, dyfais diogelwch sensitif sy'n diffodd trydan yn awtomatig os oes

nam). Os bydd digwyddiad ar raddfa fawr ar y safle, bydd y clwb yn sicrhau fod swyddogion y gwasanaethau brys yn medru dod i'r safle. Os gofynnir i bobl adael y safle o achos ymddygiad afreolus, ni chaniateir i'r sawl fu'n ymddwyn yn wael ddod yn ôl i mewn i'r digwyddiad. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith. Mae pecynnau Cymorth Cyntaf ar gael ar y safle. Gwnaed asesiadau risg lechyd a Diogelwch. Mae goleuadau newydd wedi eu gosod yn y clwb.

d) Atal niwsans cyhoeddus

Bydd drysau a ffenestri'r clwb a'r portacabin ar gau yn ystod adloniant byw ac adloniant wedi'i recordio, ac eithrio i adael pobl i fynd mewn a mas. Caiff sŵn ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau nad oes tarfu ar y cymdogion. Gofynnir i gwsmeriaid adael yn dawel ac yn drefnus a chaiff hysbysiadau eu harddangos i annog hyn. Bydd adloniant byw a cherddoriaeth wedi'i recordio yn dod i ben am Hanner Nos.

e) Diogelu Plant rhag Niwed

Bydd pob digwyddiad a gynhelir yn y babell yn rhai ar gyfer pobl dros 18 oed. Bydd staff yn herio unrhyw un sy'n ymddangos o dan 21 oed ac yn gofyn am brawf adnabod. Maent yn cael eu cyfarwyddo i dderbyn prawf adnabod ffotograffig yn unig, h.y., pasbort, trwydded yrru a chardiau dilys. Os oes amheuaeth, nid ydynt i fod gwerthu alcohol. Yn ystod digwyddiadau adloniant a gynhelir y tu allan i'r safle, cyflenwir bandiau garddwrn. Darperir y bandiau garddwrn hyn dim ond i bobl sy'n amlwg dros 18 neu i bobl sy'n profi eu hoedran drwy ddangos dogfen adnabod gydnabyddedig. Y polisi gweini a fabwysiadir yn ystod digwyddiadau fydd 'Dim band garddwrn – dim diod.' Mae nifer o Aelodau'r Pwyllgor wedi cael prawf DBS. Gofynnir i blant o dan 12 oed adael erbyn 9.30pm a phlant eraill erbyn 10pm. Bydd yn rhaid i bob plentyn dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn drwy'r amser.

New operating schedule – March 2022 submitted as part of new application to increase licensable area.

Annex 2 - Conditions consistent with the operating Schedule

a) General

Staff will be trained to the requirements of the Licensing act 2003 and will be made aware of our operating schedule. Staff will be trained to demand ID from anyone who appears to be under 21, they will be instructed to accept only photographic ID e.g passports, driving licence, recognized phot id cards, If any doubt exists they will not sell alcohol. They will not serve people who are already drunk.

A maximum of 5 external entertainment events will be allowed per calendar year.

b) The prevention of crime and disorder

We will not sell alcohol to anyone who appears to be drunk or is violent, quarrelsome or disorderly. The Premises is secured by good quality locks and is alarmed. When **public entertainment** is provided then door supervisors will be used ration 2 for first 100 and then 1 every 100 after that.

Entertainment events will have registered SIA door persons on duty at the premises. They will be supplemented by members of the club committee who will be briefed on their roles and responsibilities. The SIA staff will wear branded clothing and identification licence badges and will be easily identified.

The SIA staff and stewards will be strategically placed at the entrance and both inside and outside any events marquees. The staff will include female members of staff to assist in dealing with female attendees.

We will not tolerate use of illicit substances on our premises and if suspected the Police will be contacted.

A refusal/incident book will be kept and produced to Police or Licensing officers for inspection when requested.

Police to be notified of any event to be held in a Marquee at least 7 days before the start of an event.

c) Public safety

External lighting will be hired and used at events. No glasses or glass bottles will be allowed outside the main club premises. During events any drinks supplied outside the main club premises will be served in polycarbonate, plastic glasses or plastic bottles.

Male and female door supervisors will have the right to search any bag, handbags or clothing if they suspect anyone is carrying bottles in to the venue. Notices will be placed at the main entrance stating that persons may be subject of a search. Any items which may be used to cause injury to persons will be confiscated.

Doorpersons to ensure that the capacities for each area are not exceeded. No more than 100 persons will be allowed in the Clubhouse and no more than 90 persons in the portacabin. The number of persons allowed in the marquee will depend on the actual size erected, with a maximum attendance of 699 in a suitably sized marquee.

The main entrance area will be kept free from any obstruction to ensure that any attending emergency vehicles will have easy access to the site.

For events held in the marquee, a qualified electrician will advise on the safest means of providing electricity to it. Either the electricity will be supplied by using electricity cables running from the clubhouse. This cabling will be armored or a generator will be used and the electricity will be connected by a professional electrician. The external electric supply/speakers etc will be connected to a residual current device (RCD is a sensitive safety device that switches off electricity if there is a fault).

In the event of any large-scale incident at the site, the club will make the premises available for use by emergency personnel.

In the event that person(s) are asked to leave the premises due to unruly behaviour, those persons responsible for the behaviour will not be permitted to re-enter events.

Public liability insurance in force. First Aid kits available on premises. Health and Safety risk assessments have been undertaken. New emergency lighting fitted in the club.

d) The prevention of public nuisance

Doors and windows of the clubhouse and portacabin will be closed during live and recorded entertainment except for access and egress. Noise will be regularly monitored to ensure that neighbours are not disturbed. Customers will be requested to leave quietly and orderly. Notice requesting this will be displayed.

Live entertainment and recorded music will cease at Midnight.

Immediate residents will be informed before any events are held in a Marquee , which will allow them to make adjustments if they so wish.

e) The protection of children from harm

Staff will challenge anyone who appears to be under 21 years and demand ID. Staff will be instructed to accept only photographic ID e.g passports, driving licence, recognized phot id cards, If any doubt exists they will not sell alcohol.


During entertainment events held outside the premises, wrist bands will be supplied. The wrist bands will only be provided to persons who are obviously over 18 or persons who prove their age by producing recognized identity documents. The serving policy to be adopted during the events will be a 'No wrist band-no sale policy'.


A number of Committee Members have DBS checks. Children under the age of 12 will be asked to leave by 21:30, and other children by 22:00. All children under 16 to be accompanied by an adult at all times.


Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu

Annex 3 - Conditions attached after a hearing by the licensing authority/ Mediation meeting

Atodiad 4 – Cynlluniau | Annex 4 – Plans







SCALE 1cm \equiv 1m.